Allech chi fod yn ofalydd Cysylltu Bywydau?

Cysylltu Bywydau

De Ddwyrain Cymru

Cysylltu Bywydau ar gyfer argyfwng iechyd meddwl

Cydweithio:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r Cynllun Cysylltu Bywydau De Ddwyrain Cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.

Allech chi rannu'ch cartref, eich teulu a'ch bywyd cymunedol?

Mae'r prosiect Cysylltu Bywydau ar gyfer argyfwng iechyd meddwl yn rhoi dewis arall yn lle lleoliad ysbyty i gleifion mewnol, neu'n hwyluso bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty.

Caiff gofalyddion Cysylltu Bywydau eu recriwtio o'r gymuned leol ac yn derbyn £581 yr wythnos i ddarparu gofal yn eu cartrefi ar gyfer unigolion yn ystod cyfnod o argyfwng iechyd meddwl.

Mae modd i gofalyddion Cysylltu Bywydau weithio'n hyblyg, gan adael i'r prosiect wybod pan maen nhw ar gael i gynnig trefniadau.

Does dim angen cymwysterau neu brofiad ffurfiol ar ofalyddion Cysylltu Bywydau, dim ond diddordeb gwirioneddol mewn helpu eraill. Maen nhw'n derbyn cyfleoedd hyfforddi rheolaidd.

Y nod yw darparu'r diogelwch a'r cymorth sydd ei angen ar yr unigolyn wrth gynnal cysylltiadau yn y gymuned.

Sut mae prosiect yn gweithio?

Mae'r prosiect wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n dangos bod unigolion sy'n dioddef o argyfwng iechyd meddwl yn gwella'n well os ydyn nhw'n teimlo'n rhan o'r gymuned, mewn lleoliad teuluol sy'n gefnogol, ac yn gallu cymryd rhan mewn trefn ddyddiol.

Gall yr unigolyn aros gyda'r gofalydd Cysylltu Bywydau am hyd at bedair wythnos. Caiff hyd yr arhosiad ei gytuno fesul achos ac mae'n dibynnu ar faint o gymorth sydd ei angen ar bob unigolyn.

Nid yw'n ofynnol i ofalyddion Cysylltu Bywydau ddarparu cymorth proffesiynol ar gyfer anghenion iechyd meddwl yr unigolyn. Mae staff proffesiynol o'r tîm argyfwng a thîm Cysylltu Bywydau'n ymweld yn rheolaidd, ac mae gan y gofalyddion gefnogaeth dros y ffôn 24 awr y dydd.

Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn cael ei ddarparu ledled Gwent gan Gynllun Cysylltu Bywydau De Ddwyrain Cymru. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r awdurdod arweiniol.

Beth allwn ni ei gynnig i chi?

- Hyblygrwydd i weithio o'ch cartref
- Hyblygrwydd i reoli eich argaeledd
- Rôl foddhaus a gwerthfawr
- Taliadau am y trefniadau rydych chi'n eu darparu
- Cymorth ac ymweliadau rheolaidd gan weithwyr proffesiynol y maes iechyd meddwl a'r prosiect Cysylltu Bywydau
- Cymorth dros y ffôn 24 awr y dydd
- Does dim angen cymwysterau neu brofiad ffurfiol - bydd cyfleoedd hyfforddi parhaus yn cael eu darparu

Am ragor o wybodaeth ynghylch dod yn ofalydd Cysylltu Bywydau:

Ffôn: **01443 864784**

e-bost: **cysylltubywydau@caerffili.gov.uk**

Ewch i'n gwefan: **www.caerffili.gov.uk/rhannubywydau**

Gweithio mewn partneriaeth:

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI